Cynllun Iaith Gymraeg

Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod

Paratowyd y cynllun hwn gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod,

ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Dyddiad: 23 Ebrill 2009

Polisi

Wrth wneud ei waith yng Nghymru, bydd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal i'r graddau y mae'n rhesymol ac yn ymarferol bosibl gwneud hynny.

Gweithredu'r Polisi

1. **Cyfathrebu Llafar**
   - **1.1 Galwadau Ffôn**
     - 1.1.1 Bydd pobl sy'n ffonio'r YCY (Cymru) yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog. Lle bo'r galwr yn dymuno cyfathrebu'n llwyr yn Gymraeg, ac mae'r aelod o staff sy'n derbyn yr alwad yn methu ymateb yn ddigonol yn Gymraeg, dylai'r aelod o staff egluro'r sefyllfa i'r galwr a gofyn i'r galwr naill ai gyfathrebu'n llafar yn Saesneg neu anfon llythyr neu e-bost at yr YCY (Cymru) i dderbyn ymateb yn Gymraeg.
   - **1.2 Y Cyfryngau**
     - 1.2.1 Lle derbynnir ceisiadau gan y cyfryngau am gyfweliadau trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yr YCY yn ymdrechu i gael hyd i aelod o staff, neu wirfoddolwr, i gynnal y cyfweliad.
   - **1.3 Cyfarfodydd**
     - 1.3.1 Lle darperir cyfarfodydd cyhoeddus, seminarau neu weithdai yng Nghymru, gofynnir i'r gwahoddedigion beth yw eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu. Wedyn asesir yr angen am wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Lle penderfynir cynnal cyfarfodydd o'r fath yn Saesneg, hysbysir y rhai a fydd yn bresennol ynghylch hynny.

2. **Cyfathrebu Ysgrifenedig**
   - 2.1 Bydd deunyddiau a gynhyrchir i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Cyhoeddir deunydd technegol ac adroddiadau gwyddonol yn Saesneg yn unig, ond cynhyrchir crynodeb ysgrifenedig yn Gymraeg os bydd angen.
   - 2.2 Bydd y testun Cymraeg fel arfer ar y chwith i'r testun Saesneg neu uwch ei ben. Mewn rhai achosion, mae'n fwy priodol gosod testunau Cymraeg a Saesneg gefn wrth gefn neu gynhyrchu deunyddiau ar wahân, gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg annibynnol – lle digwydd hyn, rhaid i ddeunyddiau o'r fath gyfeirio at y cyfieithiad.
   - 2.3 Rhaid i'r testun Cymraeg fod o'r un maint ac yn yr un ffont â'r Saesneg. Fodd bynnag, gellir defnyddio lliw gwahanol cyhyd ag nad yw'r lliw gwahanol yn gwneud un iaith yn amlycach na'r llall.
   - 2.4 Mae'r YCY yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg gan y cyhoedd. Lle bo angen ymateb, bydd pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg. Bydd fersiwn Saesneg yn cael ei chadw lle bydd amheuon.
   - 2.5 Bydd pob datganiad i'r wasg sydd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn unig yn cael ei ryddhau'n ddwyieithog.

3. **Gweinyddiaeth Fewnol**
   - 3.1 Bydd gofyn bod staff sy'n gweithio'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru medru siarad Cymraeg, a hynny'n ddigon hyderus i fedru cyflawni eu rôl yn yr YCY.

3.2 Asesir anghenion hyfforddi a, lle bo'n briodol, bydd gofyn i staff fynychu cyrsiau Cymraeg, a byddant yn cael amser o'u gwaith arferol i wneud hynny.

3.3 Bydd yr YCY yn monitro'r galw am y Gymraeg yn barhaus ac yn gwneud newidiadau yn ôl y galw.

Atodiad

4. Cefndir

4.1 Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (YCY) ym 1991, a dyma'r unig sefydliad gwirfoddol yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud yn unig â chadwraeth ystlumod yn y DU. Gweledigaeth yr YCY yw byd lle mae ystlumod a phobl yn byw mewn cytgord â'i gilydd.

4.2 Mae'r YCY yn elusen gofrestredig ac yn dibynnu'n helaeth ar haelioni arianwyr a chefnogwyr am gyllid, trwy aelodaeth, rhoddion a chymynroddion. Mae'r YCY yn gweithio'n agos gyda gwirfoddolwyr, grwpiau ystlumod annibynnol a'r aelodau ledled y DU. Hebddynt, ni fyddai llawer o'r gwaith yn bosibl. Mae dros 200 o aelodau yng Nghymru. Ar ben hynny, mae rhyw 15 o grwpiau ystlumod yn cael eu cefnogi gan yr YCY.

4.3 Fel sefydliad elusennol, mae adnoddau'r YCY yn gyfyngedig ac mae dyletswydd felly ar yr YCY a'i staff i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ofalus. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn lefel y gwasanaeth y gall yr YCY ei ddarparu. Bydd yr YCY yn ymdrechu i godi arian i dalu am y costau hyn ac i gynnwys costau'r Cynllun Iaith Gymraeg wrth godi arian yn y dyfodol.

4.4 Goruchwylir gwaith yr YCY gan yr Ymddiriedolwyr a chymeradwywyd y cynllun hwn ganddynt. Nid oes dim yn y Cynllun sy'n gwrthdaro ag amcanion elusennol yr YCY. Nid yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i grwpiau ystlumod cysylltiedig neu bartneriaid.

4.5 Mae'r YCY yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi gweithwyr ystlumod. Mae'r YCY hefyd yn cynnal ystod o weithgareddau a phrosiectau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'n hamcanion strategol, er mwyn sicrhau bod gennym boblogaeth gynaliadwy, amrywiol o ystlumod, sef:

- Pennu lefelau targed ar gyfer poblogaethau a'r cynefinoedd cysylltiedig
- Sicrhau a chynnal y lefelau targed a nodwyd o boblogaethau ystlumod
- Gweithredu fel llais awdurdodol dros gadwraeth ystlumod
- Ennyn cefnogaeth i'r gwaith

4.6 Gweithredir rhai o'r mentrau sy'n sail ar gyfer y nodau hyn ar lefel y DU, tra bod eraill yn cael eu cynnal ar lefel ranbarthol.

4.7 Mae pencadlys cofrestredig yr YCY yn Llundain ac mae nifer o staff mewn swyddfeydd eraill. Ar adeg cyhoeddi'r Polisi Iaith Gymraeg hwn, dim ond un aelod o staff sydd wedi'i leoli yng Nghymru, sef Swyddog Ystlumod Cymru.

4.8 Nid yw'r YCY yn gorff cyhoeddus ac felly nid oes rhaid iddo gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod defnydd o'r Gymraeg yn hollbwysig, nid yn unig i ddiwylliant Cymru, ond hefyd i fywyd cymdeithasol a busnes yng Nghymru. Mae meddu ar Gynllun Iaith Gymraeg yn creu gwell proffil ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

4.9 Mae'r YCY yn derbyn cymorth ariannol gan amrywiol sefydliadau sy'n cynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ac mae rhwymedigaeth ar y cyrff hynny i annog partneriaid i ddatblygu Polisi Iaith Gymraeg. Un o amodau grant Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw bod disgwyl i sefydliadau sy'n derbyn

arian grant, nad oes ganddynt eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain, gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg CCGC – mae hyn yn galw am ddwyieithrwydd ym maes gwasanaethau wyneb yn wyneb ar gyfer y cyhoedd, deunyddiau addysgol, deunyddiau a argraffwyd at ddefnydd y cyhoedd, a thudalennau gwefan.

4.10 Fel elusen, ac fel sefydliad sy'n gweithredu'n bennaf ar lefel y Deyrnas Unedig, ni fydd yn ymarferol darparu gwasanaeth dwyieithog mewn rhai o feysydd gweithgaredd yr YCY. Gall fod anawsterau hefyd wrth recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg.

4.11 Yn ystod y degawdau diwethaf, bu symudiad tuag at ddatganoli pwerau gwleidyddol Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Mae'r rhanbarthau hyn wedi cyrraedd camau gwahanol yn y broses ddatganoli, ac mae pwerau'n dal i gael eu trosglwyddo o San Steffan, er ei bod hi'n annhebygol y bydd annibyniaeth lwyr ar Lywodraeth y DU yn digwydd yn y dyfodol rhagweladwy. Serch hynny, cydnabyddir y newid yn y fframwaith gwleidyddol fel mater pwysig iawn i'r rhanbarthau.

4.12 Yn arbennig yng Nghymru, cryfheir yr hunaniaeth ranbarthol ymhellach drwy ddefnydd o'r Gymraeg. Er bod defnydd o'r Gymraeg yn amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru – mae'n gryf iawn yn y gogledd a'r gorllewin, ac mewn rhannau o Gymoedd y de, mae ei harwyddocâd diwylliannol gymaint fel bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ar draws llawer o feysydd gwaith cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

4.13 Ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru, cyfeirir at yr YCY fel yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (Cymru), ond deellir nad yw'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (Cymru) yn rhan ar wahân nac atodol o'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod.